

DYHEU AM GWMNI!

Emyn: 76 *'Nesáu at Dduw sy dda i mi.'*

Darlleniad: Salm 42:1-5.

Gweddi: O Dduw, gweddiwn dros y rhai sydd yn dioddef o'r feirws corona; gweddiwn ar iddynt gael iachád llwyr. Gweddiwn dros y sawl sydd yn pryderu am eu dyfodol, am gynhaliaeth bob dydd ac am eu gwaith. Hiraethwn hefyd am gael cwrdd ag anwyliaid a ffrindiau unwaith yn rhagor. Cofia'r unig. **Yn enw Iesu, Amen.**

Neges: *'Medd y Salmydd, "Mae gen i syched am Dduw, y Duw byw,"* 1. Mae 'hunan ynysu' (self-isolate) ac 'ymbellhau cymdeithasol' (social distancing) bellach yn eiriau cyfarwydd i'n cyfnod. Gwnawn weld pobl yn croesi'r ffordd a llinellau ar lawr siopau er mwyn cadw pobl ar wahan. Mae'n anodd pan na chaiff anwyliaid gyfarfod â'i gilydd ar gyfer dathliadau fel penblwydd arbennig neu Sul y Mamau. Ond efallai yn fwy poenus byth yw'r profiad o fethu mynd i weld cymar neu anwylyd oherwydd maent wedi bod dan driniaeth yn yr ysbyty neu eu cymryd i gartref gofal.

Yn **Salm 42** mae'r Salmydd yn teimlo gwahanu yn ei berthynas â Duw. Mae'n bell o'r Deml yn Jerwsalem ac yn

hiraethu am gyd-addoli. *'Wrth gofio hyn i gyd dw i'n teimlo mor drist. Cofio mynd gyda'r dyrfa i dŷ Dduw,'* 4. Mae llawer heddiw yn hiraethu am dŷ Dduw, am oedfa'r Sul, am gwrdd gweddi a chymdeithas eglwysig.

Cawn y teimlad, yn fwy na cholli cwmni ei gyd-addolwyr, y mae'r Salmydd yn teimlo ymhell o'r Arglwydd. *'Dw i'n gofyn i Dduw, fy nghraig uchel, "Pam wyt ti'n cymryd dim sylw ohono i?"* 9. Efallai bod rhai ohonom ni, yng nghanol y creisis presennol, yn teimlo felly. Ond pan drown at Air Duw cawn ein hatgoffa droeon, nad yw'r Arglwydd byth yn gadael nac yn cefnu ar ei bobl, (Heb. 13:5).

Rwy'n gorffen gyda geiriau Dafydd Job, mewn defosiwn diweddar. *'Fe wyddom fod ein hanwireddau a'n brad yn erbyn ein Crëwr yn golygu bod yna agendor o bellter wedi ei hagor rhyngom â Duw. Ond cofiwn fod Iesu wedi dod i gau'r bwlch yna. Fe gymerodd ganlyniadau ein gwrthryfel (rebellion), er mwyn i ni gael cymod â Rheolwr y byd. Ar y groes fe wynebodd yr unigrwydd eithaf, a gweiddi "Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?"* (Marc 15).

Cofiwn felly, er yr ymbellhau presennol oddi wrth deulu, ffrindiau a chyd-addolwyr, bod Iesu wedi profi arwahanrwydd o'i Dad, fel na bod rhaid i ni brofi'r fath unigrwydd o'r Duw Tragwyddol, yn awr na byth!